

# **Gwerthusiad o Effaith Grant Blynyddol Llywodraeth Cymru i Safonau Addysg a Hyfforddiant Cymru (ETS Cymru)**

**Gorffennaf 2017**

**Mark Brierley**

**Consulting**

20 Boundary Lane

Saltney

Sir y Fflint

CH4 8LN

01244-671218

[Mbrierley1@sky.com](mailto:Mbrierley1@sky.com)

[www.markbrierleyconsulting.co.uk](http://www.markbrierleyconsulting.co.uk)

## Tabl Cynnwys

<b>CRYNODEB GWEITHREDOL</b> .....	<b>i</b>
<b>1 CYFLWYNIAD</b> .....	<b>1</b>
<b>2 DISGRIFIAD CRYNO O ETS CYMRU</b> .....	<b>2</b>
2.1 Telerau Cyffredinol y Grant i ETS Cymru.....	2
2.2 Swyddogaethau'r Pwyllgor Safonau Addysg a Hyfforddiant (Cymru).....	3
<b>3 METHODOLEG</b> .....	<b>4</b>
3.1 Amcanion ar gyfer ETS Cymru.....	4
3.2 Dulliau.....	5
<b>4 Amcan 1: ARDYSTIO CYRSIAU SEFYDLIADAU ADDYSG UWCH</b> .....	<b>6</b>
4.1 Rheoli Ardystio Proffesiynol Rhaglenni Addysg Uwch fel Gweithgarwch sy'n Ariannu ei Hunan.....	6
4.2 Monitro Blynnyddol y Rhaglenni Ardystiedig a Gynhelir a'r Adroddiad Drafft a Gaiff ei Lunio. ....	8
4.3 Cynnal Cronfa Ddata o Weithwyr Ieuenctid Cymwysedig yn unol â Gofynion Ardystio ETS ac i Baratoi at Gofrestru gan Gyngor y Gweithlu Addysg.....	8
<b>5 AMCAN 2: Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a Gweithredu Swyddogaethau ETS CYMRU ....</b>	<b>10</b>
5.1 Gan Adeiladu ar Fersiwn 2010, Sicrhau fod y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn Adlewyrchu Trefniadau Presennol ac unrhyw Newidiadau Posibl i Strwythurau Cyflogwyr Awdurdodau Lleol.....	10
5.2 Paratoi at a Chynnal Cyfarfodydd Pwyllgor ETS Cymru er mwyn Sicrhau'r Effaith a Amlinellir yn yr Amcanion.....	11
5.3 Cynnal y Gwaith o Redeg a Rheoli ETS o Ddydd i Ddydd, yn cynnwys Adroddiadau Prydlon ynghylch Targedau'r Grant a Rheolaeth Ariannol Briodol.....	13
5.4 Cynnal a Datblygu Gwefan ETS Cymru i Sicrhau Cyfathrebu â'r Maes ac Argaeledd Gwybodaeth Briodol.....	13
<b>6 AMCAN 3: effaith strategol</b> .....	<b>14</b>
6.1 Mynychu Cyfarfodydd ar y cyd â'r ETS eraill. Rhannu a Hyrwyddo Arferion a Pholisi Ar Draws Awdurdodaethau i Sicrhau fod Cydraddoldeb o ran Safonau'r Ddarpariaeth ar draws y Deyrnas Unedig a Chymru yn cael ei Adlewyrchu mewn Trefniadau ar draws y Deyrnas Unedig.....	14
6.2 Cydweithio â Chydweithwyr o'r ETS eraill fel Corff Arbenigol y Sector i Gwblhau Gweithgareddau yn ymwneud â Chod Dosbarthiad Galwedigaethol Safonol ar gyfer Gwaith Ieuenctid a Chymuned.....	15
6.3 Cyfrannu at Agenda Polisi Llywodraeth Cymru.....	15
6.4 Cynrychioli ETS Cymru yng Nghyfarfodydd Cynghrair Gwaith Ieuenctid Cymru a Chyfarfodydd Busnes a Digwyddiadau Eraill.....	16
<b>7 AMCAN 4: Ardystio cyrsiau Gweithwyr Cymorth Ieuenctid ar Lefelau 2/3</b> .....	<b>17</b>
7.1 Mynychu Cyfarfodydd ar y cyd â'r NYA, Agored Cymru a Chyrrff Dyfarnu Lloegr i Gwblhau Datblygiadau yn Ymwneud â'r Cymwysterau Ymarfer Gwaith Ieuenctid Newydd ar Lefelau 2 a 3.....	17
7.2 Llunio Canllawiau ynghylch Ardystio Cymwysterau Gweithwyr Cymorth Ieuenctid.....	18
7.3 Ardystio Cyrrff Dyfarnu yng Nghymru (Agored Cymru) a Chasglu Data ynghylch y Cyrsiau a Ddarperir gan yr holl Gyrrff Dyfarnu Perthnasol.....	18
<b>8 AMCAN 5: DATBLYGU MARC ANSAWDD CENEDLAETHOL</b> .....	<b>19</b>
<b>9 CRYNODEB O'R CANFYDDIADAU A'R ARGYMHELLION</b> .....	<b>20</b>

## CRYNODEB GWEITHREDOL

Mae'r adroddiad hwn yn darparu gwerthusiad o Grant Blynyddol Llywodraeth Cymru i Safonau Addysg a Hyfforddiant Cymru (ETS Cymru). Gwnaed y Gwerthusiad hwn gan Mark Brierley o *Mark Brierley Consulting* ym Mai a dechrau Mehefin 2017.

Cafodd ETS Cymru grant blynyddol o **£35,000** i ariannu costau rheoli gan Lywodraeth Cymru yn ystod y cyfnod a gwmpasir gan y Gwerthusiad hwn (2015-16, 2016-17, 2017-18).

Defnyddir y Grant i ariannu rôl Cadeirydd ETS Cymru am bedwar diwrnod y mis ar gyfartaledd ac Ymgynghorydd sy'n gweithio chwe diwrnod y mis ar gyfartaledd, ynghyd â chostau swyddfa a chynnal.

Mae'r Gwerthusiad hwn wedi'i wneud mewn cymhariaeth ag Amcanion y Grant, sef:

- **Amcan 1:** Bod yn gyfrifol am ardystio proffesiynol a chydabod hyfforddiant cymhwyso ar gyfer Gwaith Ieuenctid, yn cyflawni gofynion JNC<sup>1</sup>.
- **Amcan 2:** Llunio Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth â'r Cydbwyllgor Trafod Telerau ynghylch cyfrifoldebau a threfniadau cysylltiedig ar gyfer ardystio proffesiynol a chydabod hyfforddiant cymhwyso ar gyfer gwaith ieuenctid a rheoli gofynion cyfundrefnol.
- **Amcan 3:** Cynrychioli Cymru yng nghyfarfodydd ETS y Deyrnas Unedig ac ymateb ar ran ETS ynghylch materion priodol.
- **Amcan 4:** Datblygu'r gwaith o ardystio cymwysterau gweithwyr cymorth ieuenctid (Lefel 2/3), gan sefydlu system o adolygu gan gymheiriaid yng Nghymru.

Yn 2015-16 yn unig, roedd y canlynol hefyd yn Amcan:

- **Amcan 5:** Cydweithio â Llywodraeth Cymru, ymgynghorydd a CWVYS<sup>2</sup> i ddatblygu system Marc Ansawdd ddiwedddaredig gan ddysgu gan system bresennol NYA<sup>3</sup> a phrosiectau peilot blaenorol.

Yn unol â phwyslais *Strategaeth Gwaith Ieuenctid Genedlaethol Cymru 2014-18*, gwnaed y tybiaethau canlynol hefyd:

- Bod cymwysterau gwaith ieuenctid ardystiedig yn hanfodol i sicrhau fod gweithlu cymwysedig ar gael sy'n gallu cyflawni'r Strategaeth;
- Bod cydnabyddiaeth o gymwysterau gan y JNC yn hanfodol;
- Dylai Llwybr Cydlynol ar gyfer cymwysterau fod yn ei le i ddarparu llwybrau dysgu.

<sup>1</sup> Cydgyngor Trafod Telerau ar gyfer Gweithwyr Ieuenctid a Chymuned

<sup>2</sup> Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol

<sup>3</sup> Asiantaeth Genedlaethol Ieuenctid

**Amcan 1:** Bod yn gyfrifol am ardystio proffesiynol a chydabod hyfforddiant cymhwyso ar gyfer Gwaith Ieuencid, yn cyflawni gofynion JNC.

Er caiff cynnal ardystiadau unigol eu hariannu'n allanol gan Sefydliadau Addysg Uwch, caiff y gwaith o ddatblygu, cynnal ac adnewyddu'r seilwaith ar gyfer y rhaglen ardystio ei ariannu gan Grant Llywodraeth Cymru, a thrwy swyddogaethau eraill ETS Cymru (yn enwedig cyfarfodydd Pwyllgor ETS Cymru a chyfarfodydd ar y cyd â'r ETS eraill [JETS]), sicheir fod y Cadeirydd a'r Ymgynghorydd yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf ynghylch datblygiadau o ran polisiau ac arferion da o fewn y sector gwaith ieuencid yng Nghymru a ledled y Deyrnas Unedig.

Adlewyrchwyd hyn yn safbwyntiau'r cyfweleion, ac fe wnaeth nifer ohonynt ddisgrifio rôl ETS Cymru fel un "allweddol" neu "anhepgor". Ystyrid fod y broses ardystio yn un sy'n gweithio. Er caiff y broses ardystio ei ariannu'n allanol yn bennaf, a dim ond cyfran fechan o amser y Cadeirydd a'r Ymgynghorydd o'r grant sy'n cyfrannu'n uniongyrchol at y broses hon, mae'r Grant yn gweithredu fel echelbin sy'n dal y cyfan ynghyd.

Mae'r Grant hefyd yn ariannu oddeutu 40% o'r gost o gynhyrchu'r adroddiadau monitro blynyddol, a thrafodir yr adroddiadau gan Bwyllgor ETS Cymru.

Mae'r gwaith o gynnal cronfa ddata genedlaethol o weithwyr ieuencid ar Lefelau 5-7 wedi cael ei adfywio; fe wnaeth y gwaith hwn ddod i ben pan ddaeth Cyngor Ieuencid Cymru yn rhan o Lywodraeth Cymru yn 2005. Mae dwy elfen wedi sbarduno hyn: y Grŵp Cyngori ynghylch Hyfforddiant a'r gofyniad i weithwyr ieuencid gael eu cofrestru â Chyngor y Gweithlu Addysg (CGA).

**Amcan 2:** Cynnal Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth â'r Cydbwyllgor Trafod Telerau ynghylch cyfrifoldebau a threfniadau cysylltiedig ar gyfer ardystio proffesiynol a chydabod hyfforddiant cymhwyso ar gyfer gwaith ieuencid a rheoli gofynion cyfundrefnol.

Dylid adolygu'r amcan hwn oherwydd nid yw'r cyfeiriad at y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn ddefnyddiol o fewn Amcan oherwydd nid yw'r Memorandwm ei hun yn newid ac mae Amcan 1 eisoes yn datgan gofyniad i sicrhau y cyflawnir gofynion JNC. Dylid adolygu'r amcan hwn: er enghraifft, gellid ei newid fel a ganlyn: *Dylai ETS Cymru arddangos swyddogaeth effeithiol ac atebol yn ei Bwyllgor a'i weithrediadau beunyddiol.*

Mae gan Bwyllgor ETS Cymru agenda prysur sy'n adlewyrchu'r Amcanion a'r Targedau a bennwyd ar gyfer y Grant. Fel y cyfryw, mae'r Pwyllgor yn fecanwaith canolog i sicrhau fod yr Amcanion hyn yn cael eu datblygu, gan ystyried safbwyntiau'r sectorau amrywiol sy'n aelodau ohono.

Ar waethaf yr agenda prysur, bydd yn cyflawni ei fusnes. Mae presenoldeb o 11-12 o bobl yn gyfystyr ag ychydig dros hanner yr aelodaeth lawn, ond mae cyfansoddiad yr aelodaeth wedi cael ei adnewyddu yn ddiweddar iawn ynghyd â newidiadau i Gylch Gorchwyl y Pwyllgor.

**Amcan 3:** Cynrychioli Cymru yng nghyfarfodydd ETS y Deyrnas Unedig ac ymateb ar ran ETS ynghylch materion priodol.

Pe na bai'r Grant gan Lywodraeth Cymru ar gael, ni fyddai ETS Cymru yn gallu ymgysylltu â'r ETS o awdurdodaethau eraill. Bellach, nid yw'r cyfarfodydd hynny yn digwydd mor rheolaidd ag yn y gorffennol. Yng nghyd-destun datganoli a newidiadau mewn polisi ac arferion, mae'n bwysig bod polisiau Cymru a'r cyd-destun Cymreig yn cael llais yn y cyfarfodydd JETS.

Mae'r Grant yn caniatáu i'r Ymgynghorydd fynychu cyfarfodydd â chydweithwyr o'r ETS eraill a chyfrannu at fentrau a arweinir gan eraill. Mae gwaith datblygu yn y maes hwn yn dibynnu ar gyllid

allanol.

Fe wnaeth y Strategaeth Gwaith Ieuencid roi'r cyfrifoldeb canlynol i ETS Cymru: "*sicrhau fod rhaglenni hyfforddi i weithwyr ieuencid o safon ddigon uchel, eu bod yn berthnasol i anghenion cyflogwyr, y gweithwyr ieuencid eu hunain a'r bobl ifanc maent yn gweithio gyda nhw*" ac mae hyn yn awgrymu fod angen ymwybyddiaeth a chyfraniad at drafodaethau ynghylch polisi. Cafwyd neges glir gan y cyfweleion a nodai, pe na bai ETS Cymru yn cael y Grant gan Lywodraeth Cymru, byddai bwch o ran mynegi llais traws-sector dealladwy i Lywodraeth Cymru ynghylch ansawdd a chymwysterau'r gweithlu gwaith ieuencid. Ystyriai'r cyfweleion fod gan ETS Cymru gyfraniad pwysig i'w wneud at unrhyw ddatblygiadau strategol yn y dyfodol yng Nghymru mewn perthynas â gwaith ieuencid.

**Amcan 4:** Datblygu'r gwaith o ardystio cymwysterau gweithwyr cymorth ieuencid (Lefel 2/3), gan sefydlu system o adolygu gan gymheiriaid yng Nghymru.

Mae Grant Llywodraeth Cymru yn cynorthwyo i sicrhau cydlyniant yn natblygiad llwybr ar gyfer cymwysterau gweithwyr cymorth ieuencid a gweithwyr ieuencid. Mae ymagwedd gydlynedig ar y cyd â NYA yn sicrhau cydlyniant rhwng awdurdodaethau, ac mae presenoldeb aelodau Addysg Bellach ac Addysg Uwch ar Bwyllgor ETS yn sicrhau y gellir mynd i'r afael yn strategol â materion ynghylch datblygu Llwybr Cydlynol, o Ddyfarniad Lefel 2 i Ddiploma Uwchraddedig ar Lefel 7. Fe wnaeth un cyfwelai ddisgrifio rôl Ymgynghorydd ETS Cymru fel un "anhepgor" o ran cynorthwyo â'r broses o lunio gweithdrefnau ardystio safonol.

**Amcan 5 (2015-216 yn unig):** Cydweithio â Llywodraeth Cymru, ymgynghorydd a CWVYS i ddatblygu system Marc Ansawdd ddiwedddareidig gan ddysgu gan system bresennol NYA a phrosiectau peilot blaenorol.

Mae'r Marc Ansawdd newydd wedi cael ei gyflawni. Mae Cylch Gorchwyl drafft Pwyllgor ETS Cymru yn cynnwys:

*Cymorth a chynghor i ddatblygu:*

- *strategaethau datblygu gweithluoedd a fframweithiau datblygiad proffesiynol parhaus sefydliadau annibynnol, awdurdodau lleol a sefydliadau gwirfoddol;*
- *polisiau a gweithdrefnau sicrwydd ansawdd sefydliadau annibynnol, awdurdodau lleol a sefydliadau gwirfoddol.*

Efallai fod hwn yn faes y gall Llywodraeth Cymru ei ystyried yn fanylach trwy drafod ag ETS Cymru.

### **Crynodeb**

Mae ETS Cymru yn cyflawni'r rolau y caiff ei ariannu i'w darparu ac mae'n gwneud hynny'n effeithiol iawn, ac â chymorth cryf gan y sectorau sydd wedi'u cynrychioli yn aelodaeth Pwyllgor ETS Cymru. Mae'r Amcanion hyn yn ategu'r argymhellion perthnasol a wneir yn *Strategaeth Gwaith Ieuencid 2014-18*. Mae agenda Pwyllgor ETS Cymru yn cynnwys Amcanion a thargedau allweddol y Grant.

Mae Pwyllgor ETS Cymru hefyd yn darparu cyfleoedd i bartneriaid ddod ynghyd a thrafod materion strategol ehangach sy'n ymwneud â gwaith ieuencid.

Mae ETS Cymru yn addas i'w ddiben, ac mae wedi cyflawni rôl bwysig o ran cyfrannu at y Strategaeth Gwaith Ieuencid, a byddai'n parhau i wneud cyfraniad pwysig pe bai Strategaeth Gwaith Ieuencid ar gyfer y dyfodol yn parhau i roi lle pwysig i weithlu gwaith ieuencid â chymwysterau proffesiynol. Ei brif effaith yw sicrhau cydlyniant, safoni ac ansawdd yn yr hyfforddiant i weithwyr ieuencid ledled Cymru.

Mae'n debyg y byddai unrhyw gyfyngu ar ffocws y Grant neu leihad mewn cyllid yn golygu y byddai gan ETS lai o adnoddau na'r hyn sy'n ofynnol i allu gweithredu'n effeithiol. Mae anawsterau a brofwyd

mewn awdurdodaethau eraill a gan gyrrff ardystio eraill o ganlyniad i doriadau yn awgrymu fod y Grant wedi caniatáu i Gymru barhau i weithredu'n effeithiol.

Pe na bai'r Grant yn parhau, byddai'n creu problemau sylweddol o ran cynnal strwythur cydlynol ar gyfer ardystio cymwysterau yng Nghymru, a byddai hynny'n llesteirio datblygiad parhaus y Llwybr Cydlynol.

## 1 CYFLWYNIAD

Mae'r adroddiad hwn yn darparu gwerthusiad o Grant Blynnyddol Llywodraeth Cymru i Safonau Addysg a Hyfforddiant Cymru (ETS Cymru). Gwnaed y Gwerthusiad hwn gan Mark Brierley o Mark Brierley Consulting ym Mai a dechrau Mehefin 2017.

Mae *Strategaeth Gwaith Ieuenctid Genedlaethol Cymru 2014-18* gan Lywodraeth Cymru yn gwneud nifer o ddatganiadau eglur ynghylch pwysigrwydd cael gweithlu medrus a phroffesiynol i ddarparu gwaith ieuenctid:

“...mae pobl ifanc, yn gywir ddigon, yn disgwyl cael eu cynorthwyo gan ymarferwyr gwaith ieuenctid cymwys a medrus. Mae gwaith ieuenctid yn broffesiwn medrus ac, yn strategol, credwn fod yn rhaid i ni barhau i ymdrechu i sicrhau gweithlu gwaith ieuenctid sydd â'r cymwysterau priodol.”

Nodir y dull o sicrhau hyn hefyd:

“...mae angen datblygu llwybr cydlynol, clir i gymwysterau a fframwaith datblygiad proffesiynol parhaus i'r rhai sy'n ymwneud â darpariaeth gwaith ieuenctid. Mae angen i'r fath fframwaith sicrhau bod y rhai sy'n ymwneud â chyflawni a rheoli gwaith ieuenctid yn cael cymorth i ddatblygu'r sgiliau angenrheidiol, y wybodaeth a'r cymwyseddau sy'n berthnasol i'w rolau. Mae angen sefydlu llwybrau dysgu a datblygu i weithwyr ieuenctid hefyd sy'n ystyried y rôl sydd eisoes yn cael ei chyflawni gan wirfoddolwyr a'u hymrwymiad.”

Yn ogystal â chynnal gweithlu medrus a phroffesiynol, mae'r strategaeth hefyd yn ceisio gwella hynny. Mae rhai o'r argymhellion yn cynnwys:

20. Cynyddu nifer y gweithwyr ieuenctid sydd â chymhwyster gwaith ieuenctid a gydnabyddir gan y JNC<sup>4</sup>.

21. Caiff pecyn hyfforddi cydlynol ar gyfer gweithwyr ieuenctid ei ddatblygu erbyn 2016.

22. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i hyrwyddo a chefnogi hyfforddiant proffesiynol o safon uchel a gydnabyddir yn genedlaethol ar gyfer gweithwyr ieuenctid drwy ETS Cymru.

23. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda rhanddeiliaid i ystyried cofrestru gweithwyr ieuenctid.

---

<sup>4</sup> Cydgyngor Trafod Telerau ar gyfer Gweithwyr Ieuenctid a Chymuned

## 2 DISGRIFIAD CRYNO O ETS CYMRU

### 2.1 Telerau Cyffredinol y Grant i ETS Cymru

Sefydlwyd ETS Cymru fel corff annibynnol yn 2008. Amlinellwyd diben ETS Cymru mewn Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) a'r Cydbwyllgor Trafod Telerau ar gyfer Gwaith Ieuenctid a Chymuned (JNC):

...bod yn gyfrifol am ardystio, sicrhau ansawdd, ac Achredu Gwaith Ieuenctid, o fewn y sectorau gwirfoddol, annibynnol ac awdurdodau lleol, trwy annog sefydliadau priodol i ganiatáu i'w harferion gael eu hadolygu a'u cydnabod er mwyn cyflawni gofynion JNC. Yn ogystal â'r gwaith hwn, mae ETS Cymru yn parhau i ddarparu cymorth i'r sectorau Gwaith Chwarae a Datblygu Cymunedol yn unol â'r cylch gorchwyl a gytunwyd â Llywodraeth Cymru yn 2006.

Dywed *Strategaeth Genedlaethol Gwaith Ieuenctid Cymru 2014-18*:

“Mae'n hanfodol bod hyfforddiant gwaith ieuenctid yn bodloni gofynion sylfaenol y proffesiwn ac y bydd yn parhau yn drosglwyddadwy o fewn y DU a thu hwnt. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ariannu ETS Cymru am y pedair blynedd nesaf er mwyn sicrhau bod rhaglenni hyfforddi i weithwyr ieuenctid o safon ddigon uchel, eu bod yn berthnasol i anghenion cyflogwyr, y gweithwyr ieuenctid eu hunain a'r bobl ifanc y maent yn gweithio gyda nhw.”

Cafodd ETS Cymru **gymorth grant** blynyddol gwerth **£35,000** gan Lywodraeth Cymru er mwyn ariannu costau rheoli, yn ystod y cyfnod a gwmpasir gan y Gwerthusiad hwn (2015-16, 2016-17, 2017-18).

Defnyddir y grant i ariannu swydd Cadeirydd ETS (Gareth Newton) am bedwar diwrnod y mis ar gyfartaledd ac Ymgynghorydd (Liz Rose) am chwe diwrnod y mis ar gyfartaledd, ynghyd â chostau swyddfa a chynnal (bydd yr Ymgynghorydd yn defnyddio swyddfeydd CLILC pan na fydd allan mewn cyfarfodydd). Ystyrid fod yr amser hwn yn ddigonol, er gall gofynion y gwaith amrywio yn ystod y flwyddyn ac o flwyddyn i flwyddyn (e.e. rhoddodd y Cadeirydd enghraifft o un mis pan weithiodd 7.5 diwrnod).



## 2.2 Swyddogaethau'r Pwyllgor Safonau Addysg a Hyfforddiant (Cymru)

Cafodd Cylch Gorchwyl ETS Cymru ei ddiwygio ym Mai 2017, ac mae'r drafft diwygiedig yn diffinio ei swyddogaethau mewn perthynas â Gwaith leuenctid fel a ganlyn:

Ardystio Proffesiynol:

- cyrsiau a rhaglenni hyfforddiant cychwynnol sy'n arwain at gymhwyster proffesiynol;
- cyrsiau a rhaglenni hyfforddiant yn dilyn ymgymhwyso;
- cynlluniau achredu a safoni hyfforddiant cymhwyso (amser llawn a rhan amser), yn y sectorau gwirfoddol, annibynnol ac awdurdodau lleol.

Cymorth a chyngor i ddatblygu:

- strategaethau datblygu gweithluoedd a fframweithiau datblygiad proffesiynol parhaus sefydliadau annibynnol, awdurdodau lleol a sefydliadau gwirfoddol;
- polisiau a gweithdrefnau sicrwydd ansawdd sefydliadau annibynnol, awdurdodau lleol a sefydliadau gwirfoddol;
- datganiadau yn ymwneud â chwricwlwm, gwerthoedd a safonau proffesiynol y sector;
- cyrsiau sy'n arwain at gymwysterau ym maes goruchwyllo ar gyfer athrawon gwaith maes.

Paratoi, ehangu ac adolygu meini prawf, canllawiau a gweithdrefnau ar gyfer ardystio ac achredu.

Sefydlu a chynnal gweithgorau i archwilio ac asesu cynigion ac arferion asiantaethau sy'n ceisio ardystiad neu achrediad.

Cynorthwyo â gwaith a wneir i sicrhau cywerthedd a throsglwyddedd cymwysterau Gwaith leuenctid yn y Deyrnas Unedig ac Iwerddon, a darparu cyngor i Lywodraeth Cymru ynghylch y materion hyn pan fydd yn gofyn am hynny neu pan fydd ETS Cymru yn ystyried fod hynny'n briodol.

Cynorthwyo â gwaith a wneir i baratoi at gywerthedd a throsglwyddedd cymwysterau Gwaith leuenctid yn y Deyrnas Unedig ac Iwerddon, a darparu cyngor i Lywodraeth Cymru ynghylch y materion hyn pan fydd yn gofyn am hynny neu pan fydd ETS Cymru yn ystyried fod hynny'n briodol.

Sefydlu ac ymateb i ddatblygiadau ynghylch safonau, cydnabod a darparu Gwaith leuenctid, a darparu cyngor i Lywodraeth Cymru, Cyngor y Gweithlu Addysg a sefydliadau perthnasol a phriodol eraill pan ofynnir am hynny neu pan fydd Pwyllgor ETS yn ystyried fod hynny'n briodol.

## 3 METHODOLEG

### 3.1 Amcanion ar gyfer ETS Cymru

Mae CLILC yn cartrefu ETS Cymru, ac yn darparu lle swyddfa a chymorth i Ymgynghorydd ETS Cymru a chostau rheoli cyffredinol i gyflawni'r Amcanion canlynol, yn unol â'r hyn a ddiffinnir yn y llythyrau oddi wrth Llywodraeth Cymru at Gyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes CLILC ar gyfer 2015-16, 2016-17 a 2017-18:

- **Amcan 1:** Bod yn gyfrifol am ardystio proffesiynol a chydabod hyfforddiant cymhwys ar gyfer Gwaith Ieuenctid, yn cyflawni gofynion JNC.
- **Amcan 2:** Llundio Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth â'r Cydbwyllgor Trafod Telerau ynghylch cyfrifoldebau a threfniadau cysylltiedig ar gyfer ardystio proffesiynol a chydabod hyfforddiant cymhwys ar gyfer gwaith ieuenctid a rheoli gofynion cyfundrefnol.
- **Amcan 3:** Cynrychioli Cymru yng nghyfarfodydd ETS y Deyrnas Unedig ac ymateb ar ran ETS ynghylch materion priodol.
- **Amcan 4:** Datblygu'r gwaith o ardystio cymwysterau gweithwyr cymorth ieuenctid (Lefel 2/3), gan sefydlu system o adolygu gan gymheiriaid yng Nghymru.

Yn 2015-16 yn unig, roedd y canlynol hefyd yn Amcan:

- **Amcan 5:** Cydweithio â Llywodraeth Cymru, ymgynghorydd a CWVYS i ddatblygu system Marc Ansawdd ddiweddaedig gan ddysgu gan system bresennol NYA a phrosiectau peilot blaenorol.

Defnyddiwyd yr Amcanion hyn fel ffocws y Gwerthusiad o effaith y Grant. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi y gwnaed y tybiaethau canlynol wrth ystyried yr Amcanion hyn, sy'n cyd-fynd â phwyslais *Strategaeth Genedlaethol Gwaith Ieuenctid Cymru 2014-18*:

- Bod cymwysterau gwaith ieuenctid ardystiedig yn hanfodol i sicrhau fod gweithlu cymwysedig ar gael sy'n gallu cyflawni'r Strategaeth;
- Bod cydnabyddiaeth o gymwysterau gan y JNC yn hanfodol;
- Dylai Llwybr Cydlynol ar gyfer cymwysterau fod yn ei le i ddarparu llwybrau dysgu.

Daliwch sylw: trwy gydol yr adroddiad hwn, er mwyn symleiddio, cyfeirir at yr Amcanion fel rhai sydd wedi'u cytuno rhwng Llywodraeth Cymru ac ETS Cymru yn hytrach na rhwng Llywodraeth Cymru a CLILC.

Gofynnwyd i'r Cadeirydd a'r Ymgynghorydd amcangyfrif faint o'u hamser, yn eu tyb hwy, y byddent yn ei dreulio ar bob un o'r pedwar Amcan presennol. *Daliwch sylw: bwriad gwneud hyn oedd cynnig syniad cyffredinol i'r ymchwilydd o feysydd gwaith y ddwy swydd.* O'r herwydd, dylid ystyried yr amcangyfrifon hyn fel brasamcanion defnyddiol yn hytrach na data cadarn.

	Amcan	Cadeirydd	Ymgynghorydd
1	Ardystio Cyrsiau Sefydliadau Addysg Uwch	10%	5%
2	Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a Gweithredu Swyddogaethau'r ETS	25-30%	50%+
3	Effaith strategol (Cyfarfodydd ar y cyd ag ETS eraill, Corff Arbenigol y Sector a Chyfrannu at agenda polisi Llywodraeth Cymru)	40-50% (polisi)	30% (JETS a Dosbarthiad Galwedigaethol Safonol)
4	Ardystio cyrsiau Gweithwyr Cymorth Ieuenctid ar Lefelau 2/3	5-10%	15%

Gall cydbwysedd y gorchwylion hyn amrywio yn ystod y flwyddyn (e.e. bydd yr Ymgynghorydd yn aml yn defnyddio llawer o'r haf i ddal i fyny â thasgau gwaith swyddfa) a gallant hefyd amrywio o flwyddyn i flwyddyn (nodir rhai enghreifftiau o hyn yn ddiweddarach).

### 3.2 Dulliau

Y prif ddull o gynnal yr adolygiad oedd trwy gyfrwng cyfweiliadau â nifer o randdeiliaid sy'n cyfranogi yng ngwaith Pwyllgor ETS Cymru. Roeddent yn cynnwys:

- David Algie, Prif Swyddog Cyd-drafod, Cymdeithas Llywodraeth Leol;
- Dafydd Baker, Swyddog Datblygu Cwricwlwm, Agored Cymru;
- Rachel Burton, Cydlynnydd, Gwaith Ieuenctid a Chymuned a Gwaith Chwarae, Addysg Oedolion Cymru;
- Steve Drowley, Is-gadeirydd ETS Cymru;
- Gareth Newton, Cadeirydd ETS Cymru;
- Gillian Price, Cyfarwyddwr y Rhaglen Gwaith Ieuenctid a Chymuned, Ysgol Addysg Caerdydd, Prifysgol Metropolitan Caerdydd (cynrychiolydd y Grŵp Ymgynghorol ar Hyfforddiant Addysg Uwch [TAG]);
- Grant Poiner, Swyddog Datblygu Cenedlaethol Clybiau Bechgyn a Merched Cymru (cynrychiolydd Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol [CWVYS]);
- Liz Rose, Ymgynghorydd, ETS Cymru;
- Joanne Sims, Rheolwr Gwasanaeth Ieuenctid Blaenau Gwent (cynrychiolydd y Prif Swyddogion Ieuenctid).

Cyfwelwyd y Cadeirydd a'r Ymgynghorydd gyda'i gilydd mewn cyfarfod wyneb yn wyneb; cynhaliwyd y cyfweiliadau eraill dros y ffôn. Yn ychwanegol, gwnaed dadansoddiad cyd-destunol o nifer o ddogfennau ETS Cymru, a chynigir sylwadau ynghylch nifer ohonynt yn yr adroddiad hwn.

## 4 AMCAN 1: ARDYSTIO CYRSIAU SEFYDLIADAU ADDYSG UWCH

Mae Amcan 1 yn nodi y dylai ETS Cymru: **Fod yn gyfrifol am ardystio proffesiynol a chydabod hyfforddiant cymhwyso ar gyfer Gwaith Ieuencid, yn cyflawni gofynion JNC.**

Cytunwyd ar y targedau hyn ar y cyd rhwng ETS Cymru a Llywodraeth Cymru (yr ymchwilydd sydd wedi tywyllu'r testun):

- Rheoli **ardystio proffesiynol** rhaglenni addysg uwch fel gweithgarwch sy'n ariannu ei hunan.
- **Monitro Blynyddol** y rhaglenni ardystiedig a gynhelir a'r adroddiad drafft a gaiff ei lunio.
- **Cynnal cronfa ddata** o weithwyr ieuencid cymwysedig yn unol â gofynion ardystio ETS ac i baratoi at gofrestru gan Gyngor y Gweithlu Addysg.

### 4.1 Rheoli Ardystio Proffesiynol Rhaglenni Addysg Uwch fel Gweithgarwch sy'n Ariannu ei Hunan.

Mae pedwar Sefydliad Addysg Uwch yn darparu wyth cwrs Gradd mewn Gwaith Ieuencid a Chymuned yng Nghymru: Prifysgol Metropolitan Caerdydd; Prifysgol Glyndŵr (Wrecsam); Prifysgol De Cymru (Casnewydd); Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant (Sir Gaerfyrddin). Fe wnaeth y Brifysgol Agored roi'r gorau i ddarparu cyrsiau yn ystod y cyfnod a gwmpasir gan y Grant. Bydd ardystiadau yn para pum mlynedd, a'r gofyniad am ail-ardystio sy'n darparu cylch gwaith craidd y rhaglen ardystio.

Mae'r prosesau ardystio yn ariannu eu hunain oherwydd codir tâl ar Sefydliadau Addysg Uwch am hyn: £3.5k am raglen sengl, £4.5k am raglen ar y cyd. Mae'r cyllid hwn yn talu am ddeg diwrnod o amser Ymgynghorydd ETS Cymru i gynnal a chefnogi'r broses. Bydd Paneli Ardystio yn cynnwys pump o bobl, yn cynnwys y sectorau statudol a gwirfoddol, a chânt eu cadeirio gan aelod o BwyllgorETS Cymru. Bydd aelodau'r paneli yn rhoi eu hamser am ddim ond telir eu costau. Gall y Sefydliadau Addysg Uwch hefyd wneud cais i gael ardystio cwrs sydd wedi'i addasu ar unrhyw adeg.

Disgrifiodd cyfweleion y broses fel un hynod effeithiol a threfnus iawn. Fe wnaeth nifer ganmol rôl Ymgynghorydd ETS Cymru yn sicrhau fod y broses hon yn ddiraffferth ac effeithiol.

Roedd Cadeirydd ac Ymgynghorydd ETS Cymru yn awyddus i bwysleisio y byddir yn ymdrin â hyn fel proses ddatblygol, nid arolwg. Cysylltir â Sefydliadau Addysg Uwch fisoedd ymlaen llaw; gofynnir am set benodol o bapurau cefndir; penodir panel; a bydd yr Ymgynghorydd yn ysgrifennu adroddiad rhagarweiniol i'r Panel yn amlinellu meysydd y dylid eu hystyried ymhellach. Bydd y Panel yn treulio diwrnod cyntaf yr ymweliad dau ddiwrnod â'r safle yn trafod ac yn clustnodi meysydd i ofyn rhagor o gwestiynau yn eu cylch; treulir yr ail ddiwrnod yn cwrdd â chynrychiolwyr lefel uchel y Sefydliad Addysg Uwch, ynghyd â staff, goruchwylwyr lleoliadau a myfyrwyr.

Dyma'r canlyniadau posibl:

- Caiff rhaglen ei hardystio heb unrhyw amodau;
- Caiff rhaglen ei hardystio ag amodau (y canlyniad mwyaf cyffredin); neu
- Ni chaiff rhaglen ei hardystio (prin).

## Effaith Grant Llywodraeth Cymru

Er bod y gwaith o gynnal ardystiadau unigol yn cael ei ariannu'n allanol (ac felly, dim ond cyfran fechan o amser y Cadeirydd a'r Ymgynghorydd a delir gan y Grant sy'n cyfrannu tuag at hyn), Grant Llywodraeth Cymru sy'n talu am ddatblygu, cynnal ac adnewyddu'r rhaglen ardystio. Er enghraifft, nid yw'r Canllawiau Ardystio wedi cael eu hadolygu ers 2010, a bwriedir gwneud hynny yn ystod 2017-18. Trwy gyfrwng swyddogaethau eraill ETS Cymru (yn enwedig Pwyllgor ETS Cymru a chyfarfodydd ar y cyd â'r ETS eraill [JETS]), caiff y Cadeirydd a'r Ymgynghorydd eu diweddarau ynghylch datblygiadau polisi ac arferion da o fewn y sector gwaith ieuenctid yng Nghymru a ledled y Deyrnas Unedig: mae hyn yn cynorthwyo i sicrhau nad yw'r broses yn ddim amgenach na dilyn canllawiau yn fecanyddol, ond yn hytrach, yn un sy'n cael ei llywio'n briodol gan wybodaeth ac yn berthnasol.

Adlewyrchid hyn yn safbwyntiau'r cyfweleion, ac fe sawl un ddisgrifio rôl ETS Cymru fel un "allweddol" neu "anhepgor". Ystyrid fod y broses ardystio yn gweithio, i "gadw prifysgolion ar y trywydd iawn" gan sicrhau fod safonau yn cael eu cynnal, a'u bod yn "addas i'w diben". Cafwyd sylwadau hefyd fod Sefydliadau Addysg Uwch hefyd yn gweld gwerth yn y broses. Dywedodd un cyfwelel fod ETS Cymru yn cael ei barchu'n fawr am y gwaith a wneir ganddo, ac fe wnaeth un arall gyferbynnu effeithiolrwydd ac agwedd broffesiynol ETS Cymru â'u profiad negyddol o brosesau ardystio rhaglenni eraill.

Gofynnwyd i gyfweleion hefyd gynnig sylwadau ynghylch beth fyddai ar goll pe na bai'r Grant i ETS Cymru ar gael, a chyfeiriodd sawl un at yr effaith ar y broses ardystio, e.e.:

"Byddai'n drychinebus. Byddai'n ymrannu'r sector mewn perthynas â hyfforddiant a chymwysterau."

"Gallai unrhyw un ddod i mewn a chychwyn gwneud fel y mynnent."

"Mae'n hanfodol i gynnal ansawdd a phroffesiynoldeb gwaith ieuenctid."

"Efallai na fyddai cymwysterau gwaith ieuenctid yn adlewyrchu beth sy'n ofynnol ym marn y maes ac efallai na fyddent yn ymrwymo i ofynion *Gwaith Ieuenctid yng Nghymru: Egwyddorion a Dibenion*."

"Ni fyddai unrhyw drosolwg gan bartneriaeth annibynnol i weld a yw cyrsiau yn diwallu anghenion y sector a'r ETS ledled y Deyrnas Unedig."

"Byddai hyfforddiant i weithwyr ieuenctid yn crebachu a byddai'n ddatgymalog."

"Pwy fyddai'n darparu'r math o ardystiad mae arnom ei angen, gan ddarparu Llwybr Cydlynol?"

Mewn perthynas â'r cwestiwn olaf hwn, *ni ystyriai'r* Cyfweleion fod Cyngor y Gweithlu Addysg, sy'n gyfrifol am gofrestru Gweithwyr Ieuenctid, yn ddewis arall dilys i wneud y gwaith hwn. Ni ystyrid ychwaith y byddai'n ymarferol i gymwysterau gael eu hardystio gan ETS Lloegr; ystyrid fod hyn yn neilltuol o broblemus; byddai'n arwain at gyllid yn mynd allan o Gymru; a byddai'n lleihau'r tebygolrwydd o roi ystyriaeth i bolisi a fframwaith ymarfer gwaith ieuenctid penodol Cymru.

Yn gryno, er caiff y broses ardystio ei hariannu'n allanol yn bennaf, a dim ond cyfran fechan o amser y Cadeirydd a'r Ymgynghorydd a ariennir gan y grant sy'n cyfrannu'n uniongyrchol at y broses hon, mae'r Grant yn gweithredu fel echelbin sy'n dal y cyfan ynghyd.

## **4.2 Monitro Blynyddol y Rhaglenni Ardystiedig a Gynhelir a'r Adroddiad Drafft a Gaiff ei Lunio.**

Cafodd yr adolygydd weld dau adroddiad Monitro Blynyddol a gomisiynwyd gan Courtney Taylor ynghylch y Rhaglenni BA Anrhydedd a'r rhaglenni Diploma Uwchraddedig yn ôl eu trefn, a lluniwyd y ddau yn Ebrill 2017 ac maent yn cwmpasu blwyddyn academiaidd 2015-16. Gofynnir am ddata ar gyfer yr adroddiadau hyn ym mis Rhagfyr y flwyddyn flaenorol. Ariennir hyn yn rhannol gan Grant Llywodraeth Cymru ac yn rhannol gan y taliad a wneir gan y Sefydliadau Addysg Uwch am y broses ardystio (ariennir oddeutu 40% trwy'r Grant). Ystyriai ETS Cymru ei fod yn briodol defnyddio rhan o'r Grant i wneud hyn, oherwydd mae'r monitro blynyddol yn cynnwys gwybodaeth i'r sector Addysg Bellach a'r gweithlu cyffredinol ynghylch Addysg Uwch.

Dywedodd rhai cyfweleion fod anawsterau wedi digwydd wrth geisio cynhyrchu'r data ar gyfer yr adroddiadau hyn yn y gorffennol, yn ymwneud â'r gwahanol ddulliau o gofnodi gwybodaeth mewn gwahanol Sefydliadau Addysg Uwch. Dywedodd un cyfwelai ei fod yn credu fod pwysau gan ETS wedi cynorthwyo i lunio gwybodaeth well.

Ystyrid fod y broses yn sicrhau fod Sefydliadau Addysg Uwch yn atebol ac ystyriai pawb a gyfwelwyd ei fod yn ddefnyddiol. Trafodir yr adroddiadau yng nghyfarfodydd Pwyllgor ETS Cymru; os bydd unrhyw faterion penodol yn ymwneud â Sefydliad Addysg Uwch, gall ETS Cymru ysgrifennu at y sefydliad neu gynnwys y mater i'w ystyried yn fanylach pan wneir yr ail-ardystio nesaf. Er enghraifft, cafwyd trafodaeth wedi'r adroddiad diweddaraf ynghylch tuedd i fwy o fenywod na dynion ddilyn cyrsiau.

### **Effaith Grant Llywodraeth Cymru**

Mae'r Grant yn ariannu oddeutu 40% o'r gost o gynhyrchu'r adroddiadau monitro blynyddol, a thrafodir yr adroddiadau gan Bwyllgor ETS Cymru.

## **4.3 Cynnal Cronfa Ddata o Weithwyr Ieuenctid Cymwysedig yn unol â Gofynion Ardystio ETS ac i Baratoi at Gofrestru gan Gyngor y Gweithlu Addysg.**

Yn flaenorol, cyfrifoldeb Cyngor Ieuenctid Cymru (CIC) oedd cynnal cronfa ddata genedlaethol o weithwyr ieuenctid cymwysedig, ond daeth hyn i ben pan gafodd swyddogaethau CIC eu hymgorffori yng ngwaith Llywodraeth Cymru yn 2005. Gofynnodd TAG (Grŵp Ymgynghorol ynghylch Hyfforddiant Addysg Uwch) i ETS Cymru ailsefydlu'r gronfa ddata a llenwi'r bylchau o 2005 hyd at y presennol. Mae'r gronfa ddata yn cynnwys manylion yr holl gymwysterau a enillwyd gan unigolion. Bydd pob Sefydliad Addysg Uwch yn darparu gwybodaeth gyfredol a gofynnwyd iddynt oll ddarparu'r wybodaeth sydd ar goll (mae Glyndŵr eisoes wedi gwneud hyn; mae Ymgynghorydd ETS Cymru yn bwriadu atgoffa'r Sefydliadau Addysg Uwch eraill i wneud hyn yn ystod yr haf). Defnyddir y gronfa ddata i roi tystysgrifau i fyfyrwyr hefyd. Mae'r gronfa ddata yn cwmpasu pobl sydd â chymwysterau o Lefel 5 i Lefel 7 yn bennaf.

Mae ETS Cymru yn cynnal rhestr o raglenni hyfforddiant gwaith ieuenctid a gydnabyddir gan JNC, yn cynnwys rhai presennol a rhai o'r gorffennol, ac o 1995 ymlaen, mae'n cyhoeddi rhestr o'r cyrsiau hyn ar ei wefan. Dywedodd sawl cyfwelai ei fod yn bwysig i ETS Cymru barhau i wneud hyn fel gall unigolion a chyflogwyr gadarnhau fod gan rywun gymhwyster a gydnabyddir gan y JNC: dywedodd un cyfwelai fod hynny'n "allweddol". Ni fydd ETS Cymru yn llunio adroddiadau o'r data a gedwir ar y system. Mae data ynghylch cymwysterau Lefel 2 a Lefel 3 yn nwylo Cyrff Dyfarnu (Agored Cymru ac ABC Awards) a'r canolfannau darparu ar hyn o bryd.

Sefydlwyd Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA) gan *Ddeddf Addysg (Cymru) 2014* ac mae wedi cael y gwaith o reoleiddio gweithwyr ieuencid a phobl sy'n gweithio ym maes Dysgu Seiliedig ar Waith o Ebrill 2017 trwy wneud cofrestru i ymarfer yn ofynnol. Mae cofrestru gwaith ieuencid yn golygu fod y gronfa ddata hon yn bwysicach, ac mae ETS Cymru a CGA wedi parhau i gysylltu, dros y ffôn a thrwy e-byst fel arfer, ond cynhelir ychydig o gyfarfodydd ffurfiol bob blwyddyn hefyd.

Manteision ETS Cymru yn cynnal un gronfa ddata ganolog yn hytrach na gadael y gwaith hwn i Sefydliadau Addysg Uwch unigol yw'r ffaith y ceir un pwynt cyswllt a'r mecanwaith i sicrhau trosolwg strategol a ddarperir ganddo.

Mae'n wahanol i ofynion CGA oherwydd mae ffocws CGA ar weithwyr ieuencid *sy'n ymarfer ar hyn o bryd* y mae'n ofynnol iddynt gofrestru ac ar eu haddasrwydd i ymarfer, ac mae cronfa ddata ETS Cymru yn canolbwyntio ar gymwysterau gwaith ieuencid mae unigolion wedi'u hennill. Er bod llawer iawn o orgyffwrdd, nid ydynt yr un fath.

### **Effaith Grant Llywodraeth Cymru**

Mae dwy elfen wedi sbarduno adnewyddu'r gronfa ddata ynghylch gweithwyr ieuencid cymwysedig: y Grŵp Cyngori ynghylch Hyfforddiant a'r gofyniad i weithwyr ieuencid gael eu cofrestru â Chyngor y Gweithlu Addysg (CGA). Gellir cynnal cronfeydd data yn unrhyw le: naill ai dan ofal ETS Cymru, CGA neu yn rhywle arall. Mae gadael y gwaith hwn yn nwylo ETS Cymru yn rhesymegol, o gofio rôl ETS Cymru yn cydweithio â Sefydliadau Addysg Uwch i gymeradwyo eu rhaglenni.



## 5 AMCAN 2: MEMORANDWM CYD-DDEALLTWRIAETH A GWEITHREDU SWYDDOGAETHAU ETS CYMRU

Mae Amcan 2 yn nodi y dylai ETS Cymru: **Gynnal Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth â'r Cydbwyllgor Trafod Telerau ynghylch cyfrifoldebau a threfniadau cysylltiedig ar gyfer ardystio proffesiynol a chydnabod hyfforddiant cymhwyso ar gyfer gwaith ieuencid a rheoli gofynion cyfundrefnol.**

Fe wnaeth ETS Cymru a Llywodraeth Cymru gytuno ar bedwar targed yn ymwneud â hyn:

- Gan adeiladu ar fersiwn 2010, **sicrhau fod y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn adlewyrchu trefniadau presennol ac unrhyw newidiadau posibl** i strwythurau Cyflogwyr Awdurdodau Lleol.
- Paratoi at a chynnal cyfarfodydd **Pwyllgor ETS Cymru** er mwyn sicrhau'r effaith a amlinellir yn yr amcanion.
- Cynnal y gwaith o **redeg a rheoli ETS o dydd i ddydd**, yn cynnwys adroddiadau prydlon ynghylch targedau'r grant a rheolaeth ariannol briodol.
- Cynnal a datblygu **Gwefan ETS Cymru** i sicrhau cyfathrebu â'r maes ac argaeledd gwybodaeth briodol.

### 5.1 Gan Adeiladu ar Fersiwn 2010, Sicrhau fod y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn Adlewyrchu Trefniadau Presennol ac unrhyw Newidiadau Posibl i Strwythurau Cyflogwyr Awdurdodau Lleol.

Disgrifir diben y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn adran 2.1. Wrth wraidd y Memorandwm, ceir gofyniad i sicrhau fod gwaith ETS yn cyflawni gofynion JNC o ran cydnabod cyrsiau. Cafodd y targed a gytunwyd gan Lywodraeth Cymru ac ETS Cymru ei newid ychydig ar gyfer 2016-17 a 2017-18 trwy ychwanegu “...*ying ngoleuni newidiadau i JNC ac unrhyw newidiadau posibl i Strwythurau Awdurdodau Lleol. Cyd-drafod â'r JNC a rhanddeiliaid perthnasol i sicrhau fod fframwaith ar gyfer cymwysterau proffesiynol yn parhau yn ei le.*”

Er gwaethaf y targed hwn, ac er gwaethaf newidiadau yn y JNC, gwnaed hyn gan ddefnyddio beth wnaeth un cyfwelai ei ddisgrifio fel dull “cyffyrddiad ysgafn” a beth wnaeth rhywun arall ei ddisgrifio fel “proses hyd braich”. Mae'n “weddol statig”. Ystyrid fod cydnabyddiaeth gan JNC yn bwysig, oherwydd mae'n sicrhau cywerthedd a throsglwyddedd ar draws awdurdodaethau. Er na chaiff telerau ac amodau JNC eu cydnabod ym mhobman yng Nghymru, dywedodd un cyfwelai fod y Memorandwm yn golygu fod ochr y cyflogwyr ac ochr y staff yn cefnogi rôl ETS Cymru, a dywedodd rhywun arall fod hyn yn amddiffyn gwaith ieuencid fel proffesiwn.

#### Effaith Grant Llywodraeth Cymru

Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn bwysig o ran darparu cydnabyddiaeth gan y JNC ar gyfer rôl ETS Cymru yn cynnal safonau proffesiynol mewn gwaith ieuencid. Ond a ddylai hynny fod yn darged? Yn yr adroddiad hwn, mae hyn wedi ei gynnwys mewn modd mwy cyffredinol yn adran 2.1. Pe bai rhagor o faterion yn ymwneud â'r maes hwn, gallai fod yn bwysig, ond diben ETS Cymru yw hyn yn hytrach na tharged. Ym marn yr ymchwilydd, mae angen diwygio geiriad Amcan 2 a'r targed hwn.



## 5.2 Paratoi at a Chynnal Cyfarfodydd Pwyllgor ETS Cymru er mwyn Sicrhau'r Effaith a Amlinellir yn yr Amcanion.

Mae cymorth i Bwyllgor ETS Cymru yn elfen bwysig o'r hyn y defnyddir Grant Llywodraeth Cymru i ETS Cymru i'w gyflawni, yn achos y Cadeirydd a'r Ymgynghorydd.

### Cylch Gorchwyl

Gwelir Cylch Gorchwyl diwygiedig Pwyllgor ETS Cymru yn adran 2.2. Cafodd ei ddiwygio ym Mai 2017. Y prif reswm dros y diwygio oedd ei ddiweddarau trwy ddileu cyfeiriadau at gyrff sydd ddim yn bodoli erbyn hyn, ychwanegu cyrff newydd sydd wedi cael eu sefydlu, a moderneiddio rhai adrannau (e.e. mewn perthynas â chyfartaledd ac amrywiaeth).

### Amseru a Lleoliad

Cynhelir tri chyfarfod bob blwyddyn, gan amlaf rhwng 10.30yb a 3.00yp ar ddydd Mercher, yn Rhaeadr Gwy. Bydd y Cadeirydd a'r Ymgynghorydd yn cyfarfod am hanner diwrnod cyn y cyfarfodydd ac am hanner diwrnod wedi hynny i gynnal ôl-drafodaeth. Caiff dogfennau perthnasol eu dosbarthu ymlaen llaw.

### Aelodaeth a Phresenoldeb

Mae 21 aelod penodol. Mae'r Aelodaeth yn cynnwys y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd a chynrychiolwyr o'r canlynol:

- JNC – ochr y staff;
- JNC – ochr y cyflogwyr;
- Cynrychiolydd Cyflogwyr Sector Gwirfoddol Cymru ar y JNC;
- Ymgynghorydd Proffesiynol (Cymru) y JNC;
- Grŵp y Prif Swyddogion Ieuencid (3);
- Grŵp Asiantaethau Hyfforddiant Addysg Uwch (Cymru) (2);
- CWVYS (3);
- Corff Dyfarnu Addysg Bellach;
- Canolfan Cyflawni Addysg Bellach;
- Datblygu Cymunedol Cymru;
- Chwarae Cymru (2);
- Ymarferwyr o'r Maes Ehangach (hyd at 3).

Bydd Ymgynghorydd ETS Cymru yn darparu cymorth proffesiynol ac ysgrifenyddol. Rhoddir statws arsylwyr i ETS Iwerddon Gyfan, Cyngor Gweithlu Addysg Cymru, ESTYN, yr Asiantaeth Ieuencid Genedlaethol, ETS yr Alban, Cangen Gwaith Ieuencid Llywodraeth Cymru a CLILC.

Rhwng Mai 2015 a Chwefror 2017, roedd 11 neu 12 o aelodau yn bresennol yn holl Gyfarfodydd y Pwyllgor, ynghyd â'r Ymgynghorydd a gwesteion achlysurol. Nid oes unrhyw ofyniad i gael cworwm.

Dywedodd cyfweleion fod presenoldeb wedi gwella o'i gymharu ag ychydig flynyddoedd yn ôl, bod cyfarfodydd yn gynrychiadol iawn fel arfer, bod gan ETS Cymru "enw da" a bod pobl yn "gefnogol iawn" o benderfyniadau'r cyfarfodydd. Cydnabyddid fod effaith toriadau yn golygu fod gan lawer o'r aelodau nifer o gyfrifoldebau oedd yn rhoi pwysau ychwanegol ar eu hamser. Dywedodd un cyfwelai mai'r "trosiant yn y sector" yw'r rheswm dros y trosiant ymhlith yr aelodau. Yn ogystal â'r adolygiad o'r Cylch Gorchwyl, mae'r aelodaeth wedi cael ei hadolygu a'i hadnewyddu.

## Cadeirydd

Mae'r Cadeirydd wedi ailysgrifennu disgrifiad swydd y Cadeirydd ac wedi datblygu proses gwerthuso i sicrhau rhagor o atebolrwydd i aelodau'r pwyllgor. Mae disgrifiad y swydd yn cynnwys datganiad o gymwyseddau y mae'n ofynnol i'r Cadeirydd lunio adroddiad hunanasesu mewn cymhariaeth â hwy, ac yna bydd tri o bobl yn cynnal adolygiad gan gymheiriaid o'r adroddiad hwnnw.

Mae'r Cadeirydd hefyd wedi cychwyn proses o gynnal cyfarfodydd ar wahân gyda chynrychiolwyr y gwahanol sectorau a gynrychiolir ar Bwyllgor ETS Cymru, er mwyn sicrhau ei fod yn hollol ymwybodol o'r materion penodol ym mhob sector, ac mae'r broses hon wedi cael ei chroesawu.

## Agenda

Mae gan Bwyllgor ETS Cymru agenda penodol. Gan amlaf, bydd yn cynnwys:

- **Cyflwyniad / Adroddiad y Cadeirydd / Cofnodion / Materion yn Codi.**
- **Datblygiadau Llywodraeth Cymru:** mae eitemau a drafodwyd wedi cynnwys: yr Archwiliad o Waith Ieuenctid; CGA/cofrestru gweithwyr ieuenctid; fframwaith canlyniadau; cofrestru gweithwyr Gofal Plant; y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid; y Grŵp Cyfeirio Gwaith Ieuenctid; y Strategaeth Gwaith Ieuenctid.
- **Rhaglen Waith ETS:** Mae hynny wedi cynnwys: Ardystio; Gwerthuso'r Cadeirydd; adnewyddu Canllawiau i Sefydliadau Addysg Uwch; diweddaru'r Marc Ansawdd; Diwygio Cylch Gorchwyl ETS Cymru; Canllawiau ynghylch Gweithwyr Cymorth Ieuenctid.
- **Gweithgareddau ardystio.**
- **Diweddariadau eraill:** e.e. ynghylch yr Adroddiadau Monitro Blynnyddol neu ddatblygiadau JNC.
- **Cyngor Sgiliau Sector.**
- **Cyfarfodydd ar y cyd â'r ETS eraill.**
- **Adborth gan Sectorau:** cyfle i bob sector sy'n bresennol gynnig adborth i'r grŵp.

## Rhwydweithio Strategol

Mae ETS Cymru wedi perfformio swyddogaeth ychwanegol i'w aelodau trwy ddarparu cyfle i rwydweithio'n strategol. Roedd sylwadau gan bum gwahanol gyfwelai yn cynnwys:

"Rydym ni wedi dioddef dros y 10 mlynedd ddiwethaf oherwydd y diffyg cyrff strategol/arweiniol yng Nghymru. Mae ETS Cymru yn unigryw oherwydd dyma'r unig gorff cynrychiadol ar draws y sector gwaith ieuenctid cyfan."

"Dyma un o'r ychydig grwpiau cynrychiadol o fewn y sector."

"Mae'n debyg mai dyma'r corff gwaith ieuenctid a chymuned mwyaf cynrychiadol yng Nghymru. Mae'n cynnwys TAG, Sefydliadau Addysg Uwch ac amrywiaeth dda o sefydliadau statudol a rhai o'r sector gwirfoddol."

"Byddwch yn tueddu i lwyrr ymgolli yn eich gwaith. Mae'n wych gallu mynd allan o'ch seilo a chael adborth gan wahanol bobl - gallwn glywed safbwyntiau'r maes."

Er bod trafodaethau o'r fath yn ychwanegu at hyd y cyfarfodydd, fel y nodwyd eisoes, nid yw'n ymddangos eu bod yn lleihau'r amser sydd ar gael i gynnal busnes craidd Pwyllgor ETS Cymru. Fel dywedodd y Cadeirydd, "Rydym ni'n credu fod gennym ni ddiddordeb dilys mewn materion ehangach."

### **Effaith Grant Llywodraeth Cymru**

Mae gan Bwyllgor ETS Cymru agenda prysur sy'n adlewyrchu'r Amcanion a'r Targedau a bennwyd i'r Grant. Fel y cyfryw, mae'r Pwyllgor yn fecanwaith canolog i sicrhau fod yr Amcanion hyn yn cael eu datblygu, gan ystyried safbwyntiau'r sectorau amrywiol sy'n aelodau ohono.

Ar waethaf yr agenda prysur, bydd yn cyflawni ei fusnes. Mae presenoldeb o 11-12 o bobl yn gyfystyr ag ychydig dros hanner yr aelodaeth lawn, ond mae cyfansoddiad yr aelodaeth wedi cael ei adnewyddu yn ddiweddar iawn ynghyd â newidiadau i Gylch Gorchwyl y Pwyllgor.

### **5.3 Cynnal y Gwaith o Redeg a Rheoli ETS o Ddydd i Ddydd, yn cynnwys Adroddiadau Prydlon ynghylch Targedau'r Grant a Rheolaeth Ariannol Briodol**

Dywedodd sawl cyfwelai fod ETS Cymru yn cael ei redeg yn dda. Bydd yn cyflwyno adroddiadau prydlon ynghylch targedau'r grant a'i wariant. Nid oes unrhyw anawsterau yn y maes hwn.

### **5.4 Cynnal a Datblygu Gwefan ETS Cymru i Sicrhau Cyfathrebu â'r Maes ac Argaeledd Gwybodaeth Briodol**

Oherwydd eu cyfranogiad ym Mhwyllgor ETS Cymru, nid oedd y rhan fwyaf o'r cyfweleion ymhlith cynulleidfa darged gwefan ETS. Ystyrid fod y wefan yn addas i'w diben: "Nid yw'n anhygoel o wych ond nid oes angen iddi fod: mae ei chynulleidfa yn gyfyngedig". Fodd bynnag, dywedodd un cyfwelai ei fod yn gwneud defnydd helaeth o'r wefan.

Er bod Ymgynghorydd ETS Cymru wedi dweud fod angen gwneud rhywfaint o ddiweddarau yn ystod yr haf, llwyddodd yr adolygydd i ganfod yr wybodaeth oedd ei hangen arno ar y wefan, ac nid yw'n gallu canfod unrhyw anawsterau.

Mae'r Grant yn caniatáu i'r wefan gael ei diweddarau o bryd i'w gilydd, pan fydd hynny'n briodol.

## 6 AMCAN 3: EFFAITH STRATEGOL

Mae Amcan 3 yn nodi y dylai ETS Cymru: **Gynrychioli Cymru yng nghyfarfodydd ETS y Deyrnas Unedig ac Iwerddon ac ymateb ar ran ETS ynghylch materion priodol.**

Fe wnaeth ETS Cymru a Llywodraeth Cymru gytuno ar bedwar targed yn ymwneud â hyn:

- Mynychu **Cyfarfodydd ar y cyd â'r ETS eraill**. Rhannu arferion a pholisi ar draws awdurdodaethau i sicrhau fod cydraddoldeb o ran safonau'r ddarpariaeth ar draws y Deyrnas Unedig a Chymru yn cael ei adlewyrchu mewn trefniadau ar draws y Deyrnas Unedig.
- Cydweithio â chydweithwyr o'r ETS eraill fel **Corff Arbenigol y Sector** i gwblhau gweithgareddau yn ymwneud â chod Dosbarthiad Galwedigaethol Safonol ar gyfer Gwaith Ieuencid a Chymuned.
- Cyfrannu at **agenda polisi Llywodraeth Cymru**.
- Cynrychioli ETS Cymru yng nghyfarfodydd **Cynghrair Gwaith Ieuencid Cymru** a chyfarfodydd busnes a digwyddiadau eraill.

### 6.1 Mynychu Cyfarfodydd ar y cyd â'r ETS eraill. Rhannu a Hyrwyddo Arferion a Pholisi Ar Draws Awdurdodaethau i Sicrhau fod Cydraddoldeb o ran Safonau'r Ddarpariaeth ar draws y Deyrnas Unedig a Chymru yn cael ei Adlewyrchu mewn Trefniadau ar draws y Deyrnas Unedig

Fe wnaeth cyfarfodydd ar y cyd ag ETS eraill (JETS) ar draws y Deyrnas Unedig ac Iwerddon gychwyn yn y 1990au, cyn sefydlu Llywodraeth Cymru fel rhan o ddatganoli. Mae JETS yn un o eitemau sefydlog agenda Pwyllgor ETS Cymru.

Mae'r buddion y cyfeiriwyd atynt wedi cynnwys rhannu gwybodaeth ac arferion mewn perthynas ag elfennau polisi a thechnegol rôl ETS; tueddiadau yn ymwneud â gwaith ieuencid a darpariaeth gwaith ieuencid; datblygu protocolau cydnabod ar y cyd; a chyfle mwy cyffredinol i rwydweithio a chynorthwyo ei gilydd.

O gofio y gallai gweithwyr weithio mewn gwahanol rannau o'r Deyrnas Unedig yn ystod eu gyrfa, mae hyn wedi bod yn bwysig i weithwyr ieuencid.

Mae effaith datganoli a'r amrywiadau sy'n deillio o hynny o ran amcanion polisi, cyllid a phrofiadau yn golygu, fel y dywedodd un cyfwelai, ei bod hi'n "...bwysig iawn fod Cymru yn cael ei chynrychioli ac y gellir darparu'r safbwynt Cymreig."

Mae gofynion eraill a newidiadau cyfundrefnol yn golygu na fydd y JETS yn cwrdd mor aml ag y byddai yn y gorffennol, ac ystyrir fod hyn yn negyddol. Cafodd cyfarfod y bwriedid ei gynnal ym Mawrth 2016 ei ohirio am ddau fis, a chanslwyd yr un y bwriedid ei gynnal dan ofal ETS Lloegr yn Hydref 2016.

#### Effaith Grant Llywodraeth Cymru

Pe na bai'r Grant gan Lywodraeth Cymru ar gael, ni fyddai ETS Cymru yn gallu ymgysylltu â'r ETS o awdurdodaethau eraill. Bellach, ni fydd y cyfarfodydd hynny yn digwydd mor rheolaidd ag yn y gorffennol.

Yng nghyd-destun datganoli a newidiadau mewn polisi ac arferion, mae'n bwysig bod polisiau Cymru a'r cyd-destun Cymreig yn cael llais yn y cyfarfodydd JETS.

## **6.2 Cydweithio â Chydweithwyr o'r ETS eraill fel Corff Arbenigol y Sector i Gwblhau Gweithgareddau yn ymwneud â Chod Dosbarthiad Galwedigaethol Safonol ar gyfer Gwaith Ieuencid a Chymuned**

Ychwanegwyd y canlynol at hyn ar gyfer 2016-17: "...yn dibynnu ar y cyllid sydd ar gael gan UKCES, gall hyn gynnwys diweddariad o'r Fframwaith Prentisiaethau i adlewyrchu gofynion newydd Pennu Safonau Prentisiaethau i Gymru<sup>5</sup> a gwaith paratoi ynghylch Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol Gwaith Ieuencid" ac ar gyfer 2017-18 "...yn dibynnu ar y cyllid sydd ar gael, gallai hyn gynnwys diweddariad o Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol Gwaith Ieuencid."

Yn sgil diwedd Comisiwn y Deyrnas Unedig dros Gyflogaeth a Sgiliau (UKCES) ym Mawrth 2017, mae JETS wedi gwneud cais, fel Corff Arbenigol y Sector, i wneud gwaith yn ymwneud â Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol gwaith ieuencid. Mae Fframwaith Prentisiaethau Cymru wedi cael ei ddatblygu ond mae gwaith datblygu ychwanegol ar y cyd wedi dod i ben oherwydd diffyg cyllid. Mae agenda Pwyllgor ETS Cymru yn cynnwys eitem sefydlog o'r enw Cyngor Sgiliau Sector.

### **Effaith Grant Llywodraeth Cymru**

Mae'r Grant yn caniatáu i'r Ymgynghorydd fynychu cyfarfodydd â chydweithwyr o'r ETS eraill a chyfrannu at fentrau a arweinir gan eraill. Mae gwaith datblygu yn y maes hwn yn dibynnu ar gyllid allanol.

## **6.3 Cyfrannu at Agenda Polisi Llywodraeth Cymru**

Fel y nodir yn adran 5.2, mae gan Bwyllgor ETS Cymru eitem sefydlog yn ei agenda yn ymwneud â Datblygiadau Llywodraeth Cymru, ac mae aelodau wedi defnyddio'r cyfarfodydd hyn i archwilio a thrafod materion polisi.

Roedd cyfweleion yn gadarnhaol ynghylch y prosesau sydd yn eu lle i sicrhau fod ETS Cymru yn darparu ymateb unedig a rennir ar draws amrywiaeth o agendâu polisiau. Yn ogystal â thrafod materion o'r fath yng nghyfarfodydd Pwyllgor ETS Cymru, bydd y Cadeirydd yn drafftio papurau fel man cychwyn ar gyfer adborth ac yn anfon y rhain at bobl fel gallant gyfrannu atynt. Dywedodd tri chyfwelai yn benodol fod y broses hon yn effeithiol iawn, a dywedodd un ohonynt fod y Cadeirydd yn "gofalu ei fod yn ystyried safbwyntiau."

Mae newidiadau a wnaed i Ddisgrifiad Swydd y Cadeirydd yn cynnwys cymwyseddau sy'n ymwneud â:

- Rheoli cyfarfodydd Pwyllgor ETS trwy ddull cydweithredol er mwyn sicrhau fod safbwyntiau sectorau yn cael eu clywed a bod aelodau yn cael y cyfle gorau posibl i gyfrannu at drafodaethau a phenderfyniadau.
- Hwyluso ymateb prydlon gan ETS i ymgynghoriadau o'r fath a all ymddangos o bryd i'w gilydd sy'n berthnasol i waith ETS.

<sup>5</sup> Manyleb Safonau Prentisiaethau i Gymru

- Pan fydd hynny'n briodol, cyfleu safbwyntiau'r Pwyllgor i sefydliadau priodol, yn cynnwys Llywodraeth Cymru, y Cydbwyllgor Safonau Addysg a Hyfforddiant (JETS), a Chyngor y Gweithlu Addysg.

### **Effaith Grant Llywodraeth Cymru**

Dylid nodi fod y Strategaeth Gwaith Ieuentid wedi rhoi'r cyfrifoldeb canlynol i ETS Cymru: "*sicrhau fod rhaglenni hyfforddi i weithwyr ieuentid o safon ddigon uchel, eu bod yn berthnasol i anghenion cyflogwyr, y gweithwyr ieuentid eu hunain a'r bobl ifanc maent yn gweithio gyda nhw*" ac mae hyn yn awgrymu fod angen ymwybyddiaeth a chyfraniad at drafodaethau ynghylch polisi. Cafwyd neges glir gan y cyfweleion a nodai, pe na bai ETS Cymru yn cael y Grant gan Lywodraeth Cymru, byddai bwlch o ran mynegi llais traws-sector eglur i Lywodraeth Cymru ynghylch ansawdd a chymwysterau'r gweithlu gwaith ieuentid. Ystyria'r cyfweleion fod gan ETS Cymru gyfraniad pwysig i'w wneud at unrhyw ddatblygiadau strategol yn y dyfodol yng Nghymru mewn perthynas â gwaith ieuentid.

## **6.4 Cynrychioli ETS Cymru yng Nghyfarfodydd Cynghrair Gwaith Ieuentid Cymru a Chyfarfodydd Busnes a Digwyddiadau Eraill**

Nid yw Cynghrair Gwaith Ieuentid Cymru wedi cynnal cyfarfod ers dwy flynedd. Credai sawl cyfwelai y gallai'r Gynghrair fod yn gorff pwysig o ran darparu llais unedig ar gyfer gwaith ieuentid, ac y dylai ETS Cymru barhau i fod yn rhan ohoni. Ystyrid mai cyflymder ac ehangder y newid ar draws waith ieuentid, yn enwedig effaith toriadau a'r heriau a wynebir gan y sawl sy'n gyfrifol am ddarpariaeth gwaith ieuentid mewn Awdurdodau Lleol, oedd y rheswm dros beidio cynnal cyfarfodydd, nid diffyg ewyllys. Heb os, gallai ETS Cymru fynychu a chyfrannu'n llawn (safbwynt ETS Cymru).

### **Effaith Grant Llywodraeth Cymru**

Mae'r Grant yn sicrhau y gallai ETS Cymru fynychu a chyfrannu'n llawn at gyfarfodydd Cynghrair Gwaith Ieuentid Cymru, os bydd yn cychwyn cynnal cyfarfodydd unwaith eto. Mae ei methiant yn rhywbeth oedd tu hwnt i reolaeth ETS Cymru.

## 7 AMCAN 4: ARDYSTIO CYRSIAU GWEITHWYR CYMORTH IEUENCTID AR LEFELAU 2/3

Mae Amcan 4 yn nodi y dylai ETS Cymru: **Ddatblygu'r gwaith o ardystio cymwysterau gweithwyr cymorth ieuencid (Lefel 2/3), gan sefydlu system o adolygu gan gymheiriaid yng Nghymru.**

Fe wnaeth ETS Cymru a Llywodraeth Cymru gytuno ar dri tharged yn ymwneud â hyn:

- Mynychu cyfarfodydd ar y cyd â'r NYA, Agored Cymru a Chyrff Dyfarnu Lloegr i **gwblhau datblygiadau yn ymwneud â'r cymwysterau Ymarfer Gwaith Ieuencid newydd ar Lefelau 2 a 3.**
- Llunio **canllawiau ynghylch ardystio** cymwysterau **Gweithwyr Cymorth Ieuencid.**
- **Ardystio Cyrff Dyfarnu yng Nghymru** (Agored Cymru) a chasglu data ynghylch y cyrsiau a ddarperir gan yr holl Gyrrff Dyfarnu perthnasol.

### 7.1 Mynychu Cyfarfodydd ar y cyd â'r NYA, Agored Cymru a Chyrff Dyfarnu Lloegr i Gwblhau Datblygiadau yn Ymwneud â'r Cymwysterau Ymarfer Gwaith Ieuencid Newydd ar Lefelau 2 a 3.

Mae cyfarfodydd ar y cyd â'r NYA, Agored Cymru a Chyrff Dyfarnu Lloegr i gwblhau datblygiadau yn ymwneud â'r cymwysterau Ymarfer Gwaith Ieuencid newydd ar Lefelau 2 a 3 wedi digwydd oddeutu tair gwaith y flwyddyn. Mae'r baich gwaith ynghylch yr Amcan hwn ar gyfer Ymgynghorydd ETS Cymru wedi amrywio o flwyddyn i flwyddyn.

Mae nifer o gymwysterau gwaith ieuencid newydd ar Lefelau 2 a 3 wedi cael eu datblygu yn lle'r rhai a ddaeth i ben yn Ionawr 2015. Mae'r rhain yn caniatáu i'r sawl sy'n eu cwblhau gael eu cydnabod fel Gweithwyr Cymorth Ieuencid gan y JNC. Mae'r datblygiad hwn wedi cael ei arwain gan Bwyllgor ETS NYA ers Mehefin 2013 trwy bartneriaeth ag ETS Cymru, ac mae wedi cynnwys cyfarfodydd â Chyrff Dyfarnu o Gymru a Lloegr ynghyd ag amrywiaeth o weithgareddau ymgynghori y gwnaeth y maes gwaith ieuencid gyfrannu atynt.

Ers 2015, mae'r pwyslais ar ddatblygu Strategaeth Asesu: cwblhawyd hyn yn Ionawr 2017, ac yn ogystal â'r cynnwys sy'n berthnasol i Gymru a Lloegr, mae'n cynnwys rhai gofynion sy'n adlewyrchu cyd-destun penodol Cymru (e.e. y gofyniad i hyfforddwyr fod wedi cofrestru â Chyngor y Gweithlu Addysg fel tiwtoriaid, hyfforddwyr neu ddarlithwyr ym maes Addysg Bellach pan fo hynny'n berthnasol).

Addaswyd targedau 2015-16 i gynnwys datblygu'r strategaeth asesu newydd, a chawsant eu haddasu unwaith eto ar gyfer 2016-17 a 2017-18 i gynnwys yr ymadrodd "yn cynnwys unedau ychwanegol". Mae'r unedau ychwanegol hyn yn cynnwys, er enghraifft, iaith a diwylliant Cymru.

Cafwyd heriau o ran datblygu'r Llwybr Cydlynol ar gyfer Cymwysterau Gwaith Ieuencid cydnabyddedig. Cynigir Lefelau 2 a 3 ar lefel Addysg Bellach a chynigir Lefelau 6 a 7 gan Sefydliadau Addysg Uwch. Gall myfyrwyr ennill Tystysgrif Lefel 4 neu Ddiploma Lefel 5 fel rhan o'u cwrs gradd BA (Anrhydedd) ar Lefel 6; fodd bynnag, os na fyddant yn mynd ati i gwblhau'r Radd BA (Anrhydedd) lawn ar Lefel 6, bydd Sefydliadau Addysg Uwch yn ystyried hynny fel methu â chwblhau.



## **Effaith Grant Llywodraeth Cymru**

Mae Grant Llywodraeth Cymru yn cynorthwyo i sicrhau cydlyniant yn natblygiad llwybr ar gyfer cymwysterau gweithwyr cymorth ieuenctid a gweithwyr ieuenctid. Mae ymagwedd gydlynedig ar y cyd â NYA yn sicrhau cydlyniant rhwng awdurdodaethau, ac mae presenoldeb aelodau Addysg Bellach ac Addysg Uwch ar Bwyllgor ETS yn sicrhau y gellir mynd i'r afael yn strategol â materion ynghylch datblygu Llwybr Cydlynol, o Ddyfarniad Lefel 2 i Ddiploma Uwchraddedig ar Lefel 7. Ceir heriau yn y maes hwn: yn sgil cyllid Grant ETS Cymru, gellir eu datrys; heb hynny, byddent yn llawer anos eu datrys a byddai angen dibynnu mwy ar ewyllys da.

### **7.2 Llunio Canllawiau ynghylch Ardystio Cymwysterau Gweithwyr Cymorth Ieuenctid**

Caiff Canllawiau llawn eu datblygu yng ngoleuni'r Strategaeth Asesu derfynol. Roedd y broses hon yn ymwneud â chytuno ar ddisgwyliadau a'u ffurfioli, yn hytrach na mynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion, ac fe wnaeth un cyfwelai ddisgrifio ymagwedd ETS Cymru tuag at weld gwerth yn sgiliau a gwybodaeth ei bartneriaid fel rhywbeth "braf" o'i gymharu â chyrrff ardystio eraill.

Fe wnaeth un cyfwelai ddisgrifio rôl Ymgynghorydd ETS Cymru fel rhywbeth sy'n "anhepgor o ran datblygu hyn."

### **7.3 Ardystio Cyrff Dyfarnu yng Nghymru (Agored Cymru) a Chasglu Data ynghylch y Cyrsiau a Ddarperir gan yr holl Gyrff Dyfarnu Perthnasol**

Bydd ETS Cymru yn sicrhau ansawdd prosesau ardystio Cyrff Dyfarnu yn hytrach na chyfranogi yn uniongyrchol yn y gwaith o ardystio cyrsiau ar Lefel 2 a Lefel 3. Ystyriai'r cyfweleion a gynigodd sylwadau am hynny ei bod yn ymagwedd gadarnhaol ac adeiladol.

Mae dogfen wedi'i pharatoi yn ymwneud â chasglu data ynghylch cyrsiau ar Lefel 2 a Lefel 3 gan ddefnyddio'r un ymgynghorydd allanol sy'n llunio'r adroddiadau monitro blynyddol ynghylch Rhaglenni BA Anrhydedd a rhaglenni Diploma Uwchraddedig, felly mae hwn yn waith sy'n dal i fynd rhagddo.



## 8 AMCAN 5: DATBLYGU MARC ANSAWDD CENEDLAETHOL

Mae Amcan 5 yn nodi y dylai ETS Cymru: **Gydweithio â Llywodraeth Cymru, ymgynghorydd a CWVYS i ddatblygu system Marc Ansawdd ddiwedddaredig gan ddysgu gan system bresennol NYA a phrosiectau peilot blaenorol.**

Roedd hwn yn Amcan ar gyfer 2015-16 yn unig. Roedd ganddo un targed yn unig:

- Cydweithio â CWVYS ac ymgynghorydd Llywodraeth Cymru o NYA i **gwblhau un system Marc Ansawdd ar gyfer Cymru**, sy'n briodol i sefydliadau gwaith ieuentid gwirfoddol ac awdurdodau lleol ar bob lefel.

Roedd gan ETS Cymru a CWVYS eu Marc Ansawdd eu hunain. Fe wnaeth Llywodraeth Cymru roi contract i Atkins Associates i gyflwyno'r Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuentid yng Nghymru yn raddol a'i ddarparu. Cafodd y Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuentid yng Nghymru ei ddatblygu â mewnbwn gan sefydliadau gwirfoddol a statudol sy'n cefnogi gwaith ieuentid neu'n ei ddarparu'n uniongyrchol ac mae'n adeiladu ar y Marciau Ansawdd a ddatblygwyd gan ETS Cymru a CWVYS. Felly cwblhawyd y dasg hon.

A ddylai ETS Cymru gyfrannu at y Marc Ansawdd yn y dyfodol? Nid oedd awydd penodol i wneud hyn, ac yn gyffredinol, nid oedd y cyfweleion wedi ystyried a ddylai ETS Cymru gyfrannu mewn rhyw ffordd neu'i gilydd.

Fodd bynnag, mae Cylch Gorchwyl drafft Pwyllgor ETS Cymru yn cynnwys (o dan adran 3.3):

*Cymorth a chynghor i ddatblygu:*

- *strategaethau datblygu gweithluoedd a fframweithiau datblygiad proffesiynol parhaus sefydliadau annibynnol, awdurdodau lleol a sefydliadau gwirfoddol;*
- *polisiâu a gweithdrefnau sicrwydd ansawdd sefydliadau annibynnol, awdurdodau lleol a sefydliadau gwirfoddol.*

Nid yw Amcanion presennol y Grant yn cwmpasu'r naill rôl na'r llall. Efallai y dymuna Llywodraeth Cymru ystyried cyfraniad posibl y gallai ETS Cymru ei wneud tuag at ddatblygu'r gweithlu, fframweithiau Datblygiad Proffesiynol Parhaus, a pholisiâu/gweithdrefnau sicrwydd ansawdd (sydd, yn ôl pob tebyg, yn cynnwys Marciau Ansawdd)?

## 9 CRYNODEB O'R CANFYDDIADAU A'R ARGYMHELLION

Mae'r dadansoddiad o'r Amcanion a'u targedau cysylltiedig yn awgrymu fod ETS Cymru yn cyflawni'r rolau y caiff ei ariannu i'w darparu ac mae'n gwneud hynny'n effeithiol iawn, ac â chymorth cryf gan y sectorau sydd wedi'u cynrychioli yn aelodaeth Pwyllgor ETS Cymru. Mae'r Amcanion hyn yn ategu'r argymhellion perthnasol a wneir yn Strategaeth Gwaith Ieuencid 2014-18. Mae agenda Pwyllgor ETS Cymru yn cynnwys yr Amcanion a'r targedau allweddol.

Mae Pwyllgor ETS Cymru hefyd yn darparu cyfleoedd i bartneriaid ddod ynghyd a thrafod materion strategol ehangach sy'n ymwneud â gwaith ieuencid. Yn ogystal â pherthnasedd y trafodaethau hyn i gyflawni Amcan 3 (effaith strategol), dywedodd cyfweleion fod y Pwyllgor yn darparu fforwm traws-sector defnyddiol yn absenoldeb fforymau eraill (e.e. Cynghair Gwaith Ieuencid Cymru).

Mae ETS Cymru yn addas i'w ddiben, ac mae wedi cyflawni rôl bwysig o ran cyfrannu at y Strategaeth Gwaith Ieuencid, a byddai'n parhau i wneud cyfraniad pwysig pe bai Strategaeth Gwaith Ieuencid ar gyfer y dyfodol yn parhau i roi lle pwysig i weithlu gwaith ieuencid â chymwysterau proffesiynol. Ei brif effaith yw sicrhau cydlyniant, safoni ac ansawdd yn yr hyfforddiant i weithwyr ieuencid ledled Cymru.

Yn ogystal â chostau swyddfa, mae'r Grant yn ariannu'r Cadeirydd am bedwar diwrnod y mis a'r Ymgynghorydd am chwe diwrnod y mis. Er bydd Sefydliadau Addysg Uwch yn talu am Amcan 1 (y broses ardystio) ar y cyfan, y Grant sy'n talu'n uniongyrchol am y gwaith o lunio a chynnal yr isadeiledd ar gyfer ardystio, a chaiff hynny ei ategu gan y swyddogaethau eraill a delir gan y Grant. Mae'n debyg y byddai unrhyw gyfyngu ar ffocws y Grant neu leihad mewn cyllid yn golygu y byddai gan ETS lai o adnoddau na'r hyn sy'n ofynnol i allu gweithredu'n effeithiol. Mae anawsterau a brofwyd mewn awdurdodaethau eraill a gan gyrrff ardystio eraill yn awgrymu fod y Grant wedi caniatáu i Gymru osgoi problemau tebyg.

Pe na bai'r Grant yn parhau, byddai'n creu problemau sylweddol o ran cynnal strwythur cydlynol ar gyfer ardystio cymwysterau yng Nghymru, a byddai hynny'n llesteirio datblygiad parhaus y Llwybr Cydlynol.

Pe bai'r grant yn parhau, byddai'n fuddiol adolygu'r Amcanion a'r Targedau. Gellid gwella Amcan 2 trwy ddileu'r cyfeiriad at y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, er enghraifft:

*Dylai ETS Cymru arddangos swyddogaeth effeithiol ac atebol yn ei Bwyllgor Rheoli a'i weithrediadau beunyddiol.*

Yn ychwanegol, ceir elfennau yng Nghylch Gorchwyl drafft y Pwyllgor (gweler adran 2.2) sydd heb eu cwmpasu gan yr Amcanion presennol a'r targedau yn ymwneud â strategaethau datblygu'r gweithlu a sicrwydd ansawdd. Efallai fod hwn yn faes y gall Llywodraeth Cymru ei ystyried yn fanylach trwy drafod ag ETS Cymru.